Gwefannau a’r cyfryngau cymdeithasol
Mae defnyddio eich gwefan a’r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd gyflym a hawdd o hyrwyddo'r Siarter MND a'ch cefnogaeth tuag ati i gynulleidfa ehangach.

GWEFAN
Dyma eiriad enghreifftiol i chi ei ddefnyddio ar eich gwefan:

Mae <ENW'R CYNGOR> wedi cytuno i fabwysiadu Siarter y clefyd niwronau motor (MND) i gefnogi pobl leol sy'n byw gyda’r clefyd marwol hwn, ynghyd â'u gofalwyr.

Mae MND yn salwch marwol sy'n ymledu'n gyflym, sy'n gallu gadael pobl yn gaeth yn eu corff methedig eu hunain, yn methu symud na siarad ac, yn y pen draw, yn methu anadlu. Mae'n lladd tua thraean o bobl o fewn blwyddyn ar ôl y diagnosis, a mwy na hanner o fewn dwy flynedd. Does dim gwellhad.
Yn anffodus, nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod rhyw lawer am MND ac mae hyn yn cyfrannu at sefyllfa lle nad yw llawer o bobl sydd â'r clefyd yn cael y gofal a'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw. Lansiwyd y Siarter MND i newid hyn.

Darllenwch y Siarter MND yn www.mndcharter.org
Neu llwythwch y Siarter MND ar eich gwefan gan roi dolen ynghlwm wrthi

<DYFYNIAD GAN GYNGHORYDD NEU GYNRYCHIOLYDD AR RAN Y CYNGOR, I'W NEWID FEL BO’R ANGEN> "Rydw i'n falch iawn bod ein cyngor ni wedi cytuno i fabwysiadu’r Siarter MND. Mae'n hanfodol bod rhagor o bobl yn ymwybodol o anghenion pobl sydd ag MND fel bod y rhai sy'n byw gyda’r clefyd dinistriol hwn yn gallu gwneud y gorau o ansawdd eu bywyd a marw gydag urddas".

Dywedodd Chris James, Cyfarwyddwr Materion Allanol y Gymdeithas MND "Mae’r Siarter MND yn bwysig iawn yn ddi-os. Rydyn ni eisiau i bawb wybod fod mynediad at y gofal priodol, yn y lle priodol, ar yr amser priodol, fel y nodir yn ein Siarter, yn gallu gweddnewid bywydau.”

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Dyma rai syniadau i'ch helpu i hyrwyddo eich cefnogaeth ar Facebook a Twitter

- Dangoswch lun o staff/cynghorwyr gyda'r deunyddiau Siarter MND
- Soniwch am @mndcampaigns neu gyfrif Twitter @mndassoc yn eich trydariad
- Rhannwch luniau neu ysgrifennwch neges ar ein wal Facebook www.facebook.com/mndcampaigns neu www.facebook.com/mndassociation

Mae hyn yn ein galluogi ni i rannu eich cefnogaeth gyda chynulleidfa ehangach

- Defnyddiwch yr hashnodau - #MND a #ChampionTheCharter pan fyddwch chi'n trydar. Bydd hyn yn sicrhau bod eich trydariad yn cael ei weld gan fwy o bobl, yn helpu i gynyddu momentwm ar gyfer yr ymgyrch hon ac yn ein galluogi ni i olrhain gweithgarwch.

Dyma sampl o drydariad a sylw ar Facebook y gallwch chi eu haddasu a'u defnyddio:

Trydariad
Yn falch iawn o #ChampionTheCharter ac wedi ei mabwysiadu i gefnogi pobl leol sydd â chlefyd niwronau motor, eu gofalwyr a'r @mndassoc #MND

Sylw ar Facebook
Mae <Enw'r Cyngor> wedi cytuno i fabwysiadu'r Siarter clefyd niwronau motor (MND) i gefnogi pobl leol sy'n byw gyda'r clefyd marwol hwn, ynghyd â'u gofalwyr.

Mae MND yn salwch angheuol sy'n ymledu'n gyflym, sy'n gallu gadael pobl yn gaeth yn eu corff methedig eu hunain, yn methu symud na siarad ac, yn y pen draw, yn methu anadlu. Mae'n lladd tua thraean o bobl o fewn blwyddyn ar ôl y diagnosis, a mwy na hanner o fewn dwy flynedd. Does dim gwellhad.

Drwy fabwysiadu'r Siarter MND, rydyn ni'n cytuno i'w hyrwyddo i bawb sy'n gweithio dros y cyngor a gyda'r cyngor i ddeall anghenion pobl ag MND a'u gofalwyr yn well